




Ysgol Pentreuchaf
 (Prifathro/Headteacher: Mr G.E Thomas)
 Pentreuchaf, Pwllheli, Gwynedd, LL53 8DZ.
 Ffôn/Tel – 01758 750 600 / 07584613603
 ebost/email - : GethinElisThomas@gwynedd.gov.uk
 Gwefan/web: www.ysgolpentreuchaf.org



22 Medi 2011

Annwyl riant/warcheidwad

Newyddlen Medi 2011

Pleser o'r mwyaf oedd croesawu'r plant yn ôl i'r ysgol ddechrau mis Medi, gan obeithio iddynt gael gwyliau haf braf a dedwydd. Pleser yw cael ysgrifennu newyddlen gyntaf y flwyddyn ysgol newydd. Ynndi, cewch lawer o wybodaeth ddefnyddiol ynglŷn â'r hyn y mae'ch plentyn/plant yn ei wneud yn yr ysgol ynghyd â nifer o bethau pwysig i'w cofio am y tymor i ddod. Edrychaf ymlaen at gyfarfod pawb eleni, yn enwedig ein rhieni/gwarcheidwaid newydd!

Rhai manylion am y dosbarthiadau

	<i>Dosbarth Meithrin a Derbyn</i>	<i>Blwyddyn 1 a 2</i>	<i>Blwyddyn 3 a 4</i>	<i>Blwyddyn 5 a 6</i>
Athro(awes) / Cymhorthydd	<i>Mrs Menna Morgan</i> Mrs Bet Richards Mrs Delyth Griffiths Mrs Wendy Jones (pnawn)	<i>Mrs Eleri Jones</i> Mrs Heulwen Hughes Miss Llinos Hughes (Llun-Mercher)	<i>Mrs Einir Humphreys</i>	<i>Mr Gethin Thomas</i> Miss Julie Roberths (Miss Llinos Hughes a Miss Sioned Huws dros gyfnod mamolaeth) Mrs Wendy Jones (bore)
	Mrs Delyth Roberts – Bl1/2 bore dydd Llun / Dosbarth Derbyn pnawn dydd Llun		<i>Mr Dylan Roberts</i> (yn ystod cyfnod mamolaeth <i>Miss Fflur Williams</i>) - Bl5/6 dydd Llun ac Iau / Bl3/4 pnawn dydd Mercher	
Thema	'Yr Hydref'		'Tylluanod'	'Oes y Tywysogion'
Gwaith cartref	Gosod ar ddydd Gwener; yn ôl ar ddydd Llun.		Gosod ar ddydd llun; yn ôl ar ddydd Mercher.	
Llyfrau darllen	<i>Adref ar ddydd Gwener; yn ôl ar ddydd Llun.</i>		<i>Adref ar ddydd Gwener; yn ôl ar ddydd Gwener.</i>	<i>Llyfrau darllen i'r ysgol yn ddyddiol.</i>
Addysg gorfforol	<i><u>Gwisg nofio ar ddydd Mawrth (cychwyn 27/09/11) (Dim i'r Meithrin)</u></i>	<i><u>Gwisg nofio ar ddydd Mawrth (cychwyn 27/09/11)</u></i>	<i>Dillad addysg gorfforol dydd Mawrth a dydd Gwener.</i>	<i><u>Gwisg nofio ar ddydd Mawrth (cychwyn 27/09/11)</u></i> <i>Dillad addysg gorfforol dydd Gwener.</i>

Nofio

Gofynnir yn garedig am gyfraniad o £2 tuag at gostau teithio.
Bydd cyfle i chwi dalu yn dymhorol (£20) neu'n wythnosol (£2).

Arian cinio

£1.90 y diwrnod, neu £9.50 yr wythnos (i'w dalu ar ddydd Llun)

Arian llefrith

50c yr wythnos (i'w dalu ar ddydd Llun)

Gwisg ysgol / Hwdis

I'w harchebu drwy'r ysgol. Ffoniwch Miss Sioned Roberts am fanylion.
Gofalwch fod enw eich plentyn/plant ar bob darn o ddilledyn!

Présenoldŵb a phrydlondŵb

Yn Ysgol Pentreuchaf, rydym yn ystyried présenoldŵb a phrydlondŵb yn bethau pwysig iawn – er mwyn i'ch plentyn/plant fantaisio'n llawn ar addysg a bywyd yr ysgol. Mae'n bwysig bod y plant gma'n rheolaidd erbyn 8.55 er mwyn egehwn ar ddiwrnod cyffrous arall yn brydlon am 9.00!

Rydym, wrth gwrs, yn deall bod plant yn sâl neu'n methu dod i'r ysgol am resymau eraill yn achlysurol. Pan fo hyn yn digwydd, a fuasch cystal a ffonio'r ysgol os gwelwch yn dda a danfon nodyn ysgrifenedig pan mae eich plentyn/plant yn dychwelyd.

YR YSGOL SYDD I CHYFRIFOLDEB DROS EICH PLENTYN/PLANT O 8.50yb YMLAEN



Adran ddiogel Gwefan Ysgol
www.ysgolpentreuchaf.org

Er mwyn gweld llythyrau, lluniau a'r wal fideo, mae'n rhaid rieni ddefnyddio cyfrinair arbennig er mwyn cael mynediad:-

(cysylltwch gyda'r ysgol os yr ydych wedi anghofio y cyfrinair)

PWYSIG - Negeseuon Testun

Yn ein hymdrech i arbed arian (a choed!) byddwn yn anfon negeseuon testun. Felly, os na ydych wedi derbyn negeseuon gan 'ysgolpentre' hyd yma, a fuasch cystal a rhoi gwybod i ni beth yw eich rhif ffôn symudol cyn gynted a phosib os gwelwch yn dda.

Dyddiadau i'r dyddiadur

- **27/09/11** - Gwersi nofio yn dechrau (yna bob pnawn dydd Mawrth)
- **05/10/11** - **Gweithredu diwydianol - DIM YSGOL I BL3/4, BL1/2, MEITHRIN/DERBYN (llythyr i ddilyn).**
- **07/10/11** - Tynnu lluniau unigol eich plentyn / plant
- **14/10/11 - Hyfforddiant Mewn Swydd (HMS) - DIM YSGOL I BLANT**
- **17/10/11 a 18/10/11** - Nosweithiau Rhieni
- **21/10/11** - Gwasanaeth Diolchgarwch y plant
- **24/10/11 - 28/10/11** - gwyliau hanner tymor
- **7/12/11 a 8/10/11** - Cyngerdd Nadolig (mwy o wybodaeth i ddilyn)
- **9/12/11** - Pantomeim!

- **03/01/12 - HMS - DIM YSGOL**

Cofiwch wyllo allan am fwy o ddyddiadau pwysig mewn llythyrau ac ar ddyddiadur gwefan yr ysgol!

Arian mewn amlen

Gofynnwn yn garedig i chi roi unrhyw arian mewn amlenni ar wahân a nodi arno beth rydych yn ei dalu, enw eich plentyn a'i ddsbarth.

Teithiau Addysgol

- Dosbarth Mrs Morgan a Mrs Jones - Taith Natur
- Dosbarth Mrs Humphreys - i'w drefnu
- Dosbarth Mr Thomas - Gwibdaith y Tywysogion - Ynys Môn, Abergwyngregyn a Llanberis

Os oes angen manylion ychwanegol arnoch, neu os ydych eisiau trafod unrhyw agwedd o fywyd ysgol eich plentyn/plant, rydym yn barod iawn i gael sgwrs â chwi.

Yn gywir,
Gethin Elis Thomas